Dysgu ac addysgu ym maes addysg gwaith cymdeithasol: Gwerslyfrau a fframweithiau asesu

social care
institute for excellence

scie

Dysgu ac addysgu ym maes addysg gwaith cymdeithasol: Gwerslyfrau a fframweithiau asesu

Cyflwyniad

Bu'r adolygiad hwn yn edrych ar ddwy ffynhonnell o wybodaeth sy'n ymdrin ag addysgu a dysgu asesu wrth gymhwyso addysg gwaith cymdeithasol, sef gwerslyfrau a fframweithiau asesu. Mae tuedd i feirniadu gwerslyfrau oherwydd eu diffyg sylwedd, ond oherwydd eu bod yn cael eu darllen yn eang, honnir eu bod yn dylanwadu'n gryf ar fyfyrwyr ac ymarferwyr. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf mae'r gwaith o asesu anghenion gwasanaethau cymdeithasol pobl yn y Deyrnas Unedig wedi defnyddio fframweithiau safonol fel y *Framework for the assessment of children in need and their families*[1] ar raddfa fwy eang.

Mewn gwirionedd, erbyn heddiw caiff gwerslyfrau a dogfennau asesu eu darllen yn eang ac mae ganddynt y potensial i newid ymarfer yn y maes hwn yn sylweddol. Ac er bod

[1] Yr Adran Iechyd, Yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth a'r Swyddfa Gartref (2000) *Framework for the Assessment of Children in Need and their Families*, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi.

gwahaniaethau sylweddol rhyngddynt – a rhwng dogfennau o'r un fath – i ryw raddau mae'u gwaith yn cyd-fynd â'i gilydd yn hytrach nac yn tynnu'n groes i'w gilydd.

Diffiniadau

Ni chafwyd diffiniad pendant o ystyr asesu yn yr adolygiad ar gyfer y gwerslyfrau na'r fframweithiau, er y cafodd adnabod a rheoli risg eu hystyried yn amcanion cyffredin yn achos yr ail. Methodd rhai cyhoeddiadau â diffinio'r term 'asesu' o gwbl, yn arbennig felly'r rhai hynny a fwriadwyd ar gyfer darllenwyr mwy profiadol. Yn gyffredinol, mae gwerslyfrau'n fwy tebygol o drafod sylfaen ddamcaniaethol asesu tra bod fframweithiau'n fwy tebygol o gynnwys canllawiau ymarferol. Ond mae llawer o eithriadau i'r rheol hon.

Cynulleidfa a safbwyntiau

Cafodd pob un o'r fframweithiau, ac 13 o'r 16 o werslyfrau, eu hysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU, neu wledydd penodol yn y DU. Ychydig iawn ohonynt roddodd sylw i safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr ac nid oedd llawer o drafodaeth ar gleientiaid nad Saesneg oedd eu mamiaith. Hyd yn oed ymhlith y dogfennau a ddatblygwyd i'w defnyddio yn y DU, roedd amrywiaeth eang o ran y sylw a roddwyd i bryderon am ymarfer cyfredol. Roedd cyhoeddiadau'r DU hefyd yn

amrywio'n fawr o ran y math o sylw, os ceid sylw o gwbl, a roddwyd i faterion yn ymwneud â gwahaniaethu neu gyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr at y maes asesu. Ychydig o sylw, os o gwbl, a gafwyd i'r materion hyn yn y gwerslyfrau a gyhoeddwyd dramor.

Tystiolaeth

Ni chafwyd esboniad rhesymegol o'r math o dystiolaeth sy'n cefnogi canllawiau penodol gan yr un o'r gwerslyfrau, a dim ond dau fframwaith oedd yn ei gynnig. Er bod rhai gwerslyfrau wedi trafod canlyniadau'r ymchwil yn benodol, methodd eraill â gwneud hynny o gwbl.

Trosglwyddo gwybodaeth

I ba raddau y gellir trosglwyddo gwybodaeth o un cyd-destun i'r llall oedd pryder terfynol yr adroddiad hwn. Codwyd tri phwynt. Yn gyntaf, mae llawer o ganllawiau'r fframweithiau'n addas ar gyfer asesu poblogaethau heblaw'r rhai y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer, ond bod angen i ddarllenwyr sylweddoli'r ffaith honno eu hunain. Yn ail, er bod gwerslyfrau'n perthyn i gyfnod a lle penodol, gallai cyhoeddiadau tramor, neu gyhoeddiadau sydd wedi dyddio, barhau i fod yn berthnasol os cânt eu haddasu ar gyfer cyd-destun ymarfer cyfredol y DU. Yn olaf, dylid cofio y gall fod cyfreithiau gwahanol ar waith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac na fydd canllawiau o bosib yn berthnasol i bob gwlad.

Model ar gyfer dadansoddi a dethol

Roedd gan bob dogfen a archwiliwyd wendidau o ran rhoi sylw i'r prif faterion a/neu esbonio'r materion hynny'n effeithiol. Gan mai myfyrwyr neu ymarferwyr prysur yw trwch y darllenwyr, mae'n bwysig bod y ffynonellau gwybodaeth mwyaf addas yn cael eu hargymell ar gyfer darllenwyr penodol. Mae'n debyg y bydd yr adroddiad hwn o'r budd mwyaf i addysgwyr sy'n penderfynu pa lyfrau neu fframweithiau i'w dewis er mwyn dysgu am asesu, ond mae hefyd yn darparu model ar gyfer dadansoddi a dewis deunyddiau'n ymwneud ag addysg gwaith cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Ar ben hynny, gellid ei addasu ar gyfer pynciau perthnasol eraill fel y gwyddorau iechyd ac addysg.

Fel rhan o'r gwaith roedd angen gwybod:

- sut y diffinnir asesu
- sail damcaniaeth a thystiolaeth
- pryderon am ymarfer cyfredol, a pha mor ddigonol yw'r wybodaeth a ddarperir
- y technegau a ddefnyddir i wella darllen.

Argymhellion i bob darllenydd

- Mae cyd-destunau deddfwriaeth, polisi ac ymarfer yn newid, a gall gwerslyfrau a fframweithiau fod wedi dyddio.
- Mae rhai gwerslyfrau, yn arbennig felly'r rhai hynny a gyhoeddir dramor, yn trafod gwaith

cymdeithasol mewn cyd-destun penodol. Fodd bynnag, hwyrach y bydd gwerslyfrau o'r fath yn gallu cynnig gwybodaeth ddefnyddiol, yn arbennig felly am bynciau a esgeulusir gan gyhoeddiadau lleol.

- Dylai darllenwyr yn y DU nodi bod deddfau ac arferion gwahanol ar waith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Cam cyntaf yn unig yw darllen gwerslyfrau a fframweithiau. Er mwyn datblygu'n ymarferydd effeithiol mae angen ymgymryd â'r arferion dysgu a gaiff eu cynnwys yn y cyhoeddiadau, trafod cysyniadau ac arferion yn ystod cyfnodau arolygu, ac yn y pen draw, rhoi'r holl ddamcaniaethau ar waith.

Argymhellion i addysgwyr gwaith cymdeithasol

- Unwaith eto, rhaid pwysleisio bod myfyrwyr ac ymarferwyr amhrofiadol angen cyfleoedd i roi'r hyn y maent yn ei ddarllen ar waith, a gorau oll os yw hynny'n digwydd mewn sefyllfa lle y cânt eu goruchwylio.
- Dylai bod gennych resymau clir dros ddewis gwerslyfrau neu fframweithiau asesu penodol.
- Byddwch yn ymwybodol o gyfyngiadau'r gwerslyfrau a'r fframweithiau a gaiff eu hargymell gennych. Yn bennaf oll, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i bolisi, deddfwriaeth neu ddisgwyliadau ymarferwyr a allai ddisodli gwybodaeth, neu olygu ei bod wedi dyddio. Hwyrach y bydd angen i chi hysbysu

myfyrwyr/ymarferwyr am newidiadau o'r fath neu argymell darllen pellach.

Argymhellion i awduron

- Diffiniwch eich cynulleidfa ac ysgrifennwch ar ei chyfer. Mae'n rhesymol rhagdybio y bydd gan eich darllenwyr rywfaint o wybodaeth flaenorol o'r maes, cyn belled â'ch bod yn egluro nad cyflwyniad i'r materion sylfaenol mo'r gwaith. Gallech argymell cyhoeddiadau eraill ar gyfer dechreuwyr.
- Dylech ddiffinio cysyniadau nad oes iddynt un diffiniad penodol, fel asesu er enghraifft.
- Dylech gynnwys astudiaethau achos ac ymarferion dysgu er mwyn hyrwyddo dysgu mwy gweithredol.
- Trafodwch sail eich damcaniaeth a'ch tystiolaeth yn eglur. Hwyrach eu bod yn amlwg i chi, ond nid felly'r darllenydd!
- Byddwch yn ymwybodol o gyfyngiadau fel nifer y geiriau sydd ar gael i chi, a cheisiwch argymell darllen pellach ar bynciau allweddol.

Cyhoeddiadau eraill sydd ar gael gan SCIE

DYSGU AC ADDYSGU YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL: ASESU

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson,
Joan Orme a Pam Green Lister
1 904812 00 7
Tachwedd 2003

ADDYSGU, DYSGU AC ASESU'R GYFRAITH YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL

Suzy Braye and Michael Preston-Shoot gyda
Lesley-Ann Cull, Robert Johns a Jeremy Roche
1 904812 20 1
Ebrill 2005

ADDYSGU A DYSGU'R GYFRAITH YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL

Suzy Braye, Michael Preston-Shoot ac Enid Levin
Medi 2005

Dysgu ac addysgu ym maes addysg gwaith cymdeithasol: Gwerslyfrau a fframweithiau asesu

Cyhoeddir yr adolygiad o Wybodaeth llawn gan SCIE. Mae ar gael ar ein gwefan ac ar ffurf copi caled gan SCIE. Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE am ddim.

Gellir gofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House, 2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
ffôn 020 7089 6840
ffacs 020 7089 6841
ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk